

CYNGOR CYMUNED MAWDDWY

Cofnodion o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd Nos Fercher y 9fed o Fawrth 2022 am 7.30yh yn Neuadd Dinas Mawddwy.

Presennol; Cyng. Hedd Pugh, Catrin Jones, Rhys Davies, John P Jones, Ynyr Pugh, Arfon Hughes, John P Roberts (Cyngor Gwynedd) a Huw T Jones (Clerc)

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd y Cynghorydd Hedd Pugh. Dywedodd fod balchder cael dychwelyd i ystafell fach y Neuadd. Dywedodd hefyd fod pawb yn meddwl am bobl yr Wcrain yn y sefyllfa enbydus o drist yr oeddynt ynddo. Nodwyd hefyd ein cofion at bawb nad oedd yn hwyliog, gan gyfeirio at Enid Jones Collfryn a oedd yn yr ysbyty. Roedd ymddiheuriad gan y Cyng. Berwyn Harding, Idris Jones, a Sion Alun Roberts.
2. Nodwyd gyfle i dderbyn cyflwyniadau gan y cyhoedd. Nid oedd neb yn bresennol felly fe symudwyd ymlaen gyda'r cyfarfod.
3. Aethpwyd ymlaen i drafod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 26ain o Ionawr. Yng nghyswllt cofnod 8d, dywedodd y Cyng John P Roberts (Cyngor Gwynedd) mai codi y mater gyda'r ysgol yr oedd ef wedi ei wneud ac wedi ei ddweud ar y noson, ac nid gyda'r Llywodraethwyr. Dywedodd y Cadeirydd y Cyng Hedd Pugh ei fod yn cofio mai codi 'gyda'r Llywodraethwyr' a ddywedwyd ar y noson a bod y cofnodion yn gywir yn ei farn ef. Ar gynnig y Cyng Catrin Jones a'i eilio gan y Cyng. John P Jones, a gyda chefnogaeth gweddill y cynghorwyr, cadarnhawyd gywirdeb y cofnodion.
4. Materion yn codi
 - a) **Materion Priffyrdd/Cefnffyrdd** – adroddwyd ymateb i'r holl faterion i Gyngor Gwynedd a godwyd y tro diwethaf. Yng nghyswllt darn o dir ym maes Parcio Lawnt y Plas, gwelwyd fod angen gofyn mwy o gwestiynau ar hyn – sef os oedd y darn yn mynd i ddwylo preifat, beth oedd sefyllfa y mynediad i safle chwarae yno. Yn achos y dwr ar Rhiw Landrin, gwelwyd fod angen iddynt ymweld a'r safle mewn cyfnod o law trwm er mwyn canfod y gwir sefyllfa.
 - b) **Arwydd mynwent Mallwyd** – roedd y Clerc wedi derbyn yr arwydd gan Signwrite, cwmni o Ddolgellau, a byddai yn cael ei gosod o fewn y dyddiau nesaf.
 - c) **Taliadau I Gynghorwyr Mawddwy 2021-22** - cyfeiriwyd eto at lythyr gan Lywodraeth Cymru yn rhoi cyfle I Gynghorwyr Mawddwy hawlio taliadau at uchafswm o £150 – ac yn unol a Adran 151 Mesur Llywodraeth Leol 2011. Byddai rhaid i hyn gael ei gyhoeddi. Cafwyd cadarnhad gan y Cyng Arfon Hughes ei fod yn dyluno hawlio £150. Dosbarthwyd datganiadau i bawb ei arwyddo yn y cyswllt yma.
 - d) **Cwynion Swyddfa Bost Dinas Mawddwy** – nid oedd ateb I law yn dilyn gohebiaeth, ond adroddwyd fod yn ymddangos fod y sefyllfa wedi gwella. Roedd angen cadw golwg ar y sefyllfa.

5.Materion Cynllunio

Adroddwyd nad oedd unrhyw geisiadau cynllunio i law ers y cyfarfod diwethaf.

6. Materion Cyllid.

Nodwyd y balansau presennol y cyfrifon sef Cyfri Cyfredol £4005.78, Cyfri Claddedigaeth £1499.78 Cyfri Cadw £768.70. Cyfeiriwyd at sefyllfa gwariant y Cyngor o'i gymharu a'r gyllideb. Aethpwyd drwy sefyllfa ariannol y Cyngor yn drwyadl, gan restru y taliadau a gytunwyd y tro diwethaf, a beth oedd yn gwynebu y Cyngor hyd ddiwedd y flwyddyn ariannol, gan gynnwys taliadau o'r Cyfri Claddedigaeth. Yn gynwysedig yn hyn oedd rhan chwarter olaf cydnabyddiaeth y Clerc, sef £434.95 HMRC £108, hefyd costau y flwyddyn sef £1250, a oedd wedi ei gytuno yn y cyfarfod diwethaf.

Cytunwyd I dalu y canlynol;

Aelodaeth Un Llais Cymru 2022-23 - £131.00
Cost Cyfrifwyr E W Owen a'i Chwmni, sef PAYE/RTI - £216.00.

Cytunwyd i gyfrannu £640 I Cylch Meithrin Dolybont fel a nodwyd y tro diwethaf, ond i dalu hyn yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Darllenwyd llythyr gan Gwawr Davalan a oedd wedi derbyn sieciau ar ran Eisteddfod y Groglith (£300) ac Ardan Bentref Dinas Mawddwy (£400) ym mis Mai 2021 gan y Cyngor Cymuned. Roedd yn ymddiheuro yn arw bod y ddwy siec wedi eu cyflwyno yn rhy hwyr, ac felly ni wnaethpwyd y taliadau. Penderfynwyd ar gynnig Cyng Catrin Jones a'i eilio gan John P Jones i ddanfôn dwy siec o'r newydd i Gwawr ar gyfer y ddau fudiad yma. (cafwyd datganiad o ddiddordeb gan Cyng Arfon Hughes a Hedd Pugh ar gyfer Eisteddfod y Groglith)

Cadarnhawyd y dylid gofyn i Uned Archwilio Cyngor Gwynedd i wneud y gwaith o archwilio cyfrifon y Cyngor Cymuned eto ar gyfer 2022-23.

Adroddodd y Clerc fod llythyr cwblwchau archwiliad 2020-21 wedi ei dderbyn gan Swyddfa Archwilio Cymru. Cyfeiriwyd at y cynnwys, ac nad oedd unrhyw faterion y dylid tynnu sylw y Cyngor iddynt. Byddai hysbysiad yn cael ei roi ar hysbysfwrdd yn ol yr arfer, gan gynnwys rhoi y ffurflen flynyddol a'r hysbysiad ar wefan y Cyngor.

7. Gohebiaeth.

a) Darllenwyd e-bost gan y Parch Miriam Beecroft yn dweud bod priodas yn Eglwys Mallwyd ar y 14eg o Fai, ac yn gofyn yn garedig a fyddai posib tacluso y fynwent ymlaenllaw. Hefyd rhoddodd awgrymiadau ynglyn a torri y fynwent eleni o gofio y trafferthion y llynedd. Gwelwyd fod yn bwysig cadw y fynwent yn daclus, ac yn dilyn trafod ar hyn, penderfynwyd gofyn i Tegid i dorri y fynwent i gyd cyn diwedd Ebrill. Yn y cyswllt hyn hefyd, gofynnwyd l'r Clerc gysylltu gyda Tegid a Hefin I gario allan y gwaith yn y mynwentydd yn ol yr arfer.

b) Amlinellwyd e -bost gan Un Llais Cymru yn rhoi gwybodaeth am hyfforddiant i Gynghorwyr. Hefyd gwybodaeth a chyfarwyddiadau am y purdha – sef cyfnod cyn etholiad a oedd yn cychwyn ar yr 16eg o Fawrth. Hefyd gofynion ar Gynghorau Cymuned o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2021 o safbwynt creu Adroddiad Blynyddol a Chynllun Hyfforddi.

c) Nodwyd wybodaeth am wrandawriad cyhoeddus gan y Comisiwn Ffiniau yn Aberystwyth ar y 30ain o Fawrth. Hefyd wybodaeth l'r hysbysfwrdd yng nghyswllt

cymorth I rywun sy'n gofalu neu byw efo dementia, a codi ymwybyddiaeth am y gostyngiad yn niferoedd gwenoliaid duon.

d) **Prosiect 'Ein Hardal ni – Dolgellau 2035'** – nodwyd e-bost yn amlinellu y diweddaraf gyda hyn, a bod ymgysylltu ymhellach gyda'r gymuned yn rhan 2 y cynllun. Dywedodd y Cyng Catrin Jones ei bod mewn cyswllt a Swyddfa'r Cyngor ynglyn a hyn, ac y byddai yn ymateb ymhellach.

8. Unrhyw Fater arall.

- a) Roedd cwynion am faw cwn yn yr ardal yn parhau mewn sawl man o fewn y pentref yn Dinas. Cyfeiriwyd at y biniau a oedd ar gael, ond gwelwyd y dylid cael biniau ychwanegol.
- b) Roedd cylfert rhwng Castell a Hendre yn Cwm Cewydd wedi llenwi ac angen sylw.
- c) Codwyd unwaith eto yr angen i dorri gwrych ger Penbont – a mynegwyd teimladau cryf fod hyn heb ei wneud er gwaethaf codi hyn sawl gwaith yn y gorffennol.
- d) Roedd difrod i'r wal ar Bont yr Hirgwm yn Aberangell.
- e) Roedd angen codi eto y ffos sydd yn gorlifo ger Y Winllan yn Aberangell, oherwydd nid oedd unlle i'r dwr fynd, a gallai fod yn beryglys adeg rhew ac eira.
- f) Roedd yr hysbysfwrdd yn Aberangell wedi dod yn rhydd ac angen ei drwsio ac ail-osod. Gofynnwyd a fyddai posib ei osod ar wal y neuadd. Awgrymwyd y dylid son wrth Hefin Pugh a fyddai yn ei osod, gan ei fod wedi gwneud hyn i'r Cyngor yn y gorffennol.
- g) Roedd y drych ger y fynedfa i Caergof ac ar dop Rhiw Landrin wedi torri ac angen sylw.
- h) Roedd tyllau ar y ffordd ar stryd Dinas, ac angen sylw.

**DYDDIAD CYFARFOD NESAF; NEUADD DINAS MAWDDWY, NOS FERCHER
25ain Mai 2022, 8.00yh.**

Daethpwyd a'r cyfarfod i ben am 8.55yh.